Department for Environment Food & Rural Affairs

# TYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL (PC)



## CANLLAW CAM WRTH GAM:

**SUT I GAEL Y DYSTYSGRIF, A BETH I'W WNEUD GYDA'R DYSTYSGRIF SYDD GENNYCH WRTH ALLFORIO PLANHIGION NEU GYNHYRCHION PLANHIGION O'R UNDEB EWROPEAIDD, Y SWISTIR A LIECHTENSTEIN I BRYDAIN.**

**ADNABOD EICH RISG I FOD YN BAROD AR GYFER NEWID**

# CYNNWYS


01 Beth yw Tystysgrif Ffytoiechydol?

02 Sut i gael Tystysgrif Ffytoiechydol

03 Y cam nesaf: bydd yr Awdurdod Cymwys yn derbyn eich ceisiadau am Dystysgrifau Ffytoiechydol

04 Y cam olaf: yr Awdurdod yn cynnal yr archwiliad a'r profion

05 Beth i'w wneud â'r dystysgrif ffytoiechydol ar ôl i chi ei chael

06 Sut ydw i'n gwybod beth yw gofynion mewnforio Prydain?

07 Symud parseli

08 Rhagor o adnoddau

# BETH YW TYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL?

Tystysgrif bapur yw Tystysgrif Ffytoiechydol gan awdurdod cymwys y wlad sy'n allforio sy'n dangos bod y planhigyn neu'r cynnyrch planhigion wedi cael ei archwilio'n swyddogol ac yn bodloni'r gofynion mewnforio a ffytoiechydol ar gyfer cael mynediad i Brydain.


1 Name and address of exporter
XXXXXXXXXXXXXXXXXX
2 PHYTOSANITARY CERTIFICATE
No. UK/GB/E&W/2021/XXXXXX
ORIGINAL
3 Declared name and address of consignee
XXXXXXXXXXXX
4 Plant Protection Organisation of
UNITED KINGDOM
To Plant Protection Organisation(s) of
XXXXXXX
5 Place of origin
XXXXXXX
6 Declared means of conveyance
XXXXXXXXXXXX
Department for Environment, Food and Rural Affairs
Welsh Government
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
defra
7 Declared point of entry
XXXXXXXXXXXX
8 Distinguishing marks: number and description: name of produce botanical name of plants
9 Quantity declared
10 This is to certify that the plants, plant products or other regulated articles described herein have been inspected and/or tested according to appropriate official procedures and are considered to be free from the quarantine pests specified by the importing contracting party and to conform with the current phytosanitary requirements of the importing contracting party, including those for regulated non-quarantine pests.
11 Additional declaration
DISINFESTATION AND / OR DISINFECTION TREATMENT
12 Treatment
13 Chemical (active ingredient)
14 Duration and temperature
15 Concentration
16 Date
17 Additional information
Place of issue
Date
Name and signature of authorised officer
Stamp of Organisation
UK Plant Health Service
DEFRA
PHE 83(Auto) (Rev. 6.15)



*Enghraifft o dystysgrif ffytoiechydol*

**Mae'r planhigyn wedi cael ei archwilio'n swyddogol**

**Yn bodloni'r gofynion mewnforio ar gyfer Prydain**


**Yn rhydd rhag plâu a chlefydau**

# SUT MAE CAEL TYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL

I benderfynu a oes angen Tystysgrif Ffytoiechydol ar gyfer y planhigion neu'r cynnyrch planhigion rydych chi'n eu hallforio i Brydain ai peidio, bydd angen i chi wirio categori risg eich nwyddau a bod yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill i reolaethau mewnforio SPS sydd wedi eu nodi yn y Model Gweithredu Targed ar y Ffin (BTOM).

- Gwiriwch y categorïau risg ar gyfer nwyddau'r Undeb Ewropeaidd

Gallwch gael gwybod pwy yw eich awdurdod cymwys drwy fynd i wefan yr IPPC (Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion). Ar ôl clicio ar y ddolen, dewiswch y botwm 'mynd i'r wlad' ar yr ochr dde a dewiswch y wlad rydych chi'n allforio ohoni.




*Ciplun o dudalen we'r IPCC*

# CAM NESAF: MAE'R AWDURDOD CYMWYS YN DERBYN EICH CAIS AM DYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL

Unwaith y bydd eich Awdurdod wedi derbyn eich cais, byddant yn ei adolygu ac yn gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gywir ac yn cydymffurfio â gofynion mewnforio Prydain.

Bydd yr Awdurdod yn cysylltu â chi i gadarnhau a yw'r cais yn gywir ac yn cytuno ar amser ar gyfer archwiliad neu'n gofyn am ragor o wybodaeth.



# CAM TERFYNOL: MAE'R AWDURDOD CYMWYS YN CYNNAL YR AROLYGIAD A'R PROFION

Bydd yr Awdurdod yn archwilio ac yn profi'r planhigyn neu'r cynnyrch planhigion ac ar ôl iddo basio'r holl wiriadau byddant yn rhoi Tystysgrif Ffytoiechydol.

Rhaid i dystysgrif ffytoiechydol gael ei rhoi dim mwy na 13 diwrnod y naill ochr i'r dyddiad mae'r llwyth yn gadael y wlad lle mae'n cael ei allforio.



# BETH I'W WNEUD GYDA'R DYSTYSGRIF FFYTOIECHYDOL AR ÔL I CHI EI CHAEL

Ar ôl i'r dystysgrif ffytoiechydol bapur gael ei llofnodi, bydd angen i chi anfon copi PDF at y mewnforwr ym Mhrydain ond rhaid i chi sicrhau bod y dystysgrif wreiddiol yn dod gyda'r nwyddau.

Mae angen i'r mewnforiwr neu'r sawl sy'n gyfrifol am y llwyth ym Mhrydain wneud rhag-hysbysiad drwy system TG IPAFFS. Yma bydd angen i'r mewnforiwr/y sawl sy'n gyfrifol am y llwyth hefyd gwblhau CHED-PP a llwytho copi PDF o'r Dystysgrif i fyny o'r cyfrifiadur i IPAFFS fel rhan o'r hysbysiad. Ar y pwynt hwn hefyd y bydd angen i'r mewnforiwr ddewis lle mae ei nwyddau'n mynd i gael eu harchwilio, boed hynny drwy Safle Rheoli ar y Ffin neu mewn Man Rheoli. Mae angen cyflwyno'r rhaghysbysiad o leiaf 4 awr cyn i'r nwyddau gyrraedd Prydain os ydynt yn dod i mewn drwy'r awyr neu RoRo. Mae angen 24 awr ar gyfer pob math arall o drafnidiaeth e.e. cludo nwyddau ar y môr dwfn.


Rhaid i'r mewnforiwr neu'r sawl sy'n gyfrifol am y llwyth ym Mhrydain sicrhau bod y gyrrwr yn dod â'r nwyddau hyn i'r BCP a ddewiswyd os caiff ei ddewis ar gyfer archwiliad.



# SUT YDW I'N GWYBOD BETH YW GOFYNION MEWNFORIO PRYDAIN?

Eich Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am benderfynu beth yw gofynion mewnforio Prydain. Gallwch hefyd gyfeirio at ddeddfwriaeth rheoliad 2019/2072 amodau ffytoiechydol Prydain i gael rhagor o wybodaeth.

Mae gan y Porthol Iechyd Planhigion ganllawiau manwl ar ofynion mewnforio Prydain a gofynion Prydain ar gyfer gofynion arbennig, a elwir yn Ddatganiadau Ychwanegol (ADs), y gallai fod angen eu cynnwys ar dystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer Planhigion i'w Plannu a Chynnyrch.



# SYMUD PARSELI

Mae symud parseli o un busnes y tu allan i Brydain i un arall ym Mhrydain yn ddarostyngedig i'r un gofynion seiliedig ar risg (hysbysiad mewnforio drwy IPAFFS, ardystio a gwirio iechyd, yn dibynnu ar risg) ag unrhyw fewnforio arall o nwyddau SPS. Bydd symudiadau parseli o'r math hwn hefyd yn dilyn yr un amserlen weithredu ar gyfer rheolaethau SPS.



# RHAGOR O ADNODDAU

[Porthol Iechyd Planhigion - Naratif Mewnforio Prydain]

## CYSYLLTU Â NI

**E-bost:**
**planthealtheuexitqueries@defra.gov.uk**

*SYLWER: NID YW'R DDOGFEN HON YN GYFREITHIOL-RWYM – AT DDIBENION GWYBODAETH Y'I BWRIADWYD YN UNIG.*